

Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus

Cwestiynau a Ofynnir yn Aml

Beth yw'r Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus (CGCC)?

Cyngor Gwynedd sydd yn cyllido a rheoli Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus. Mae'r Cynllun hwn yn caniatáu i aelodau o'r cyhoedd ddefnyddio toiledau mewn amryw o sefydliadau lleol a gymeradwywyd yn ystod yr oriau y maent ar agor. Gellir defnyddio'r toiledau yn rhad ac am ddim ac ni fydd unrhyw ddisgwyliad i'r sawl sy'n eu defnyddio prynu nwyddau neu wasanaethau yn ystod y cyfnod y byddant yn yr adeilad. Disgwylir i'r sefydliadau sy'n rhan o'r Cynllun gadw eu toiledau'n ddiogel, yn lân, yn hygyrch a sicrhau bod ynddynt ddigon o stoc bwrpasol. Uchafswm y grant am flwyddyn yw £500 fesul lleoliad.

Faint o arian fedr sefydliad ei ddisgwyl o'r Cynllun?

Bydd pob Sefydliadau yn cael ei werthuso gan Gyngor Gwynedd a bydd grant yn cael ei gynnig ar sail amgylchiadau'r sefydliad a'i doiledau sef:

- yr oriau agor dyddiol (isafswm yn 20 awr yr wythnos)
- y dyddiau y mae'n agored
- y cyfnod o Wasanaeth (tymhorol ynteu deuddeg mis)
- yr ystod o gyfleusterau ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio
- cyflwr ac ansawdd y cyfleusterau
- polisi yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol addas ar gyfer y Sefydliad (a darparu copi i Gyngor Gwynedd yn ôl y gofyn)

Bydd Cyngor Gwynedd yn penderfynu ar swm y grant gall Ddarparwr Gwasanaeth ei dderbyn pan mae'n gwerthuso'r Cais. Bydd Cyngor Gwynedd yn rhyddhau'r arian grant mewn un taliad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Beth yw'r manteision i sefydliadau sy'n cymryd rhan yn y Cynllun?

Cyhoeddusrwydd da – bydd eich sefydliadau yn cael ei hysbysebu ar Wefan Cyngor Gwynedd, ym mhrif dderbynfa'r Cyngor ac yn y canolfannau croeso ledled y sir fel lleoliad toiled cymunedol.

Mae'n bosibl y gallai eich busnes fanteisio ar yr ymweliadau oherwydd bydd mwy o bobl yn dod i mewn i'r adeilad a gallant brynu rhywbeth neu ddefnyddio eich gwasanaeth.

evaluated

Sut ydw i'n ymgeisio?

Rydych yn ymgeisio drwy lenwi'r ffurflen gais sydd ynghlwm. Nid oes dyddiad cau penodol ar gyfer derbyn ffurflenni cais. Sylwer fodd bynnag, bod yr arian grant yn gyfyngedig ac y bydd y grant yn cael ei rannu ar sail flynyddol. Mae tebygrydd y bydd ceisiadau a wneir nawr yn cael eu gosod ar restr aros.

Bydd cytundeb ar gyfer pob Sefydliad gyda Cyngor Gwynedd yn parhau hyd at ddeuddeg mis calendr o flwyddyn ariannol. Noder, nid yw Cyngor Gwynedd yn ymrwymedig i adnewyddu Cytundeb cyfredol neu rhoi Cytundeb newydd i Sefydliad yn y flwyddyn ariannol ganlynol.

Beth sy'n digwydd nesa'?

Ar ôl i chi lenwi a chyflwyno eich ffurflen gais, cam nesaf y broses ymgeisio, os yw'r cais yn hyfyw, yw y bydd Swyddog o'r Cyngor yn ymweld â chi i edrych ar y toiled(au) yr ydych yn eu cynnig ac yn trafod eich cynigion yn fanylach, e.e. oriau agor ac ati. Yn dilyn yr ymweliad, cewch lythyr yn rhoi gwybod i chi am ganlyniad yr asesiad. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu gosod ar restr aros.